Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher 8 Chwefror 2017

Ystafell Cothi, Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg):	Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Gwynedd Parry, Yr Athro Siwan Davies, Yr Athro Eleri Pryse, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Delyth Murphy, Yr Athro Emeritws Alun Deri Tomos, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Densil Morgan, Yr Athro Mererid Hopwood, Llŷr Roberts
Aelodau (Sefydliad):	Dr Gwawr Jones (yn lle Dr Lisa Lewis), Dr Gwenno Ffrancon, Dr Elin Royles, Sara Whittam, Dr Catrin Haf Williams, Julie Brake, Daniel Tiplady
Aelodau (Myfyrwyr):	Alun Bryn Rennolf, Laura Beth Davies, Gethin Morgan, Osian Wyn Morgan
Aelodau (Colegau Cymru):	-
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Suzanne Lewis (Uwch Swyddog Gweinyddiaeth)
Ymddiheuriadau:	Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Llinos Roberts, Linda Wyn, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Lisa Lewis, Lois Pennant Jones, Dr Myfanwy Davies, Gwerfyl Roberts, Yr Athro Carwyn Jones, Huw Morris

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2 Croesawyd cynrychiolwyr myfyrwyr 2016/17 i'r cyfarfod. 1.3 Croesawyd Sioned Roberts o Brifysgol Glyndŵr. 1.4 Diolchwyd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant am y croeso ac am letya'r cyfarfod. 1.5 Nodwyd absenoldeb Nia Brown oherwydd salwch gan anfon dymuniadau gorau iddi. 1.6 Estynnwyd cydymdeimlad i Dr Dafydd Trystan a'r teulu yn		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	eu profedigaeth. 1.7 Nodwyd ymddiswyddiad Linda Wyn a diolchwyd iddi am ei holl waith a'i chefnogaeth, yn bersonol, ac ar ran y Bwrdd Academaidd.		
2. Cyflwyniad gan Gangen Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	2.1 Derbyniwyd cyflwyniad gan Gwilym Dyfri Jones ac fe groesawyd y Bwrdd Academaidd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. 2.2 Adroddwyd ar gynllun y Brifysgol i gyflwyno modiwlau 5 credyd cyfrwng Cymraeg sy'n ychwanegol i'r 120 credyd bob blwyddyn, a'r datblygiadau ar gyfer flwyddyn nesaf. 2.3 Derbyniwyd cyflwyniad gan Bethan Wyn Davies, Swyddog Cangen Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a chyfeiriwyd at nifer o weithgareddau llwyddiannus y Gangen megis Blwyddiadur y Drindod Dewi Sant, Swper Syniadau a Chinio dathlu deiliaid ysgoloriaethau'r Coleg. 2.4 Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad oedd yn arddangos yr heriau a'r gwaith arloesol yn y sefydliad.		
3. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	3.1 Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 3.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016	4.1 Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.		
5. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	5.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar faterion yn ymwneud â'r Coleg. 5.2 Nodwyd bod Dr Hefin Jones wedi ei benodi i wasanaethu fel Deon y Coleg a Chadeirydd y Bwrdd Academaidd am dymor pellach gan y Pwyllgor Penodiadau ar 14 Hydref 2016.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cyllido 5.3 Adroddwyd bod argymhelliad yr Adolygiad Diamond i'r Coleg barhau i fod yn brif gorff cynllunio a chefnogi darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac y dylai'r Coleg barhau i dderbyn cyllideb flynyddol yn cyfateb o leiaf i gyllideb 2016/17, sef £5.8m. Mae cyllideb 2017/18 bellach wedi ei chadarnhau. 5.4 Nodwyd bod cyllideb 2017/18 wedi ei drafftio i fynd at Fwrdd Cyfarwyddwyr mis nesaf gyda'r rhan fwyaf o'r swm wedi ei glustnodi at weithgareddau sydd eisoes wedi'u cynllunio a bydd £0.5 miliwn yn cael ei ddyfarnu drwy gynlluniau pynciol yn sgil y Cynllun Academaidd. 5.5 Adroddwyd y newidiadau yn nhrefniadau cyllido'r Coleg wrth i'r cyllid ddod yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn hytrach na thrwy HEFCW. 5.6 Nodwyd na fydd unrhyw effaith ar y trefniadau monitro grantiau ar hyn o bryd. **Lansiad y Cynllun Academaidd** 5.7 Nodwyd bod lansiad y Cynllun Academaidd yn y Senedd ar 31 Ionawr 2017 wedi bod yn hynod lwyddiannus. Adroddwyd bod diddordeb gan wleidyddion ar draws y pleidiau gwleidyddol. 5.8 Diolchwyd i aelodau'r Bwrdd Academaidd am fynychu'r lansiad. **Adolygiad o'r canghennau** 5.9 Adroddwyd bod adolygiad o'r Canghennau gan yr archwilwyr mewnol wedi'i gwblhau. 5.10 Nodwyd bod yr adroddiad yn edrych ar yr angen i ddatblygu'r Canghennau'n ymhellach ac edrych ar yr		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	awdurdod sydd ganddynt o fewn eu sefydliadau; hynny er mwyn cryfhau rôl y gangen. 5.11 Cyfeiriwyd at bwysigrwydd rôl genedlaethol y Coleg wrth gydweithio gyda'r prifysgolion a'r cysyniad o gymuned staffio - i'w gryfhau trwy Ddarlithwyr Cysylltiol. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gyda'r bwriad o gael trafodaeth gyda'r sefydliadau yn y misoedd nesaf. **Adolygiad Hazelkorn** 5.12 Nodwyd bod yr Ysgrifennydd Addysg wedi ymateb i Adolygiad Hazelkorn. 5.13 Nodwyd nad oedd goblygiadau yn uniongyrchol i'r Coleg mewn perthynas â hyn ar hyn o bryd. **Grŵp Tasg a Gorffen: Adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** 5.14 Nodwyd bod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod yr wythnos hon a bod yr amserlen yn cael ei hymestyn yn hirach nag y bwriadwyd yn wreiddiol. 5.15 Adroddwyd bod y cyfnod ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau i'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi ymestyn tan ddiwedd Mawrth. **Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr** 5.16 Nodwyd bod tymor Andrew Green yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth eleni. 5.17 Nodwyd bod Cadeirydd newydd wedi ei benodi ac y byddai cyhoeddiad ffurfiol yn y dyddiau nesaf. Adroddwyd bod y Prif Weithredwr a'r Deon wedi cwrdd â'r Cadeirydd newydd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cynulliad Blynyddol y Coleg 5.18 Nodwyd bod Cynulliad Blynyddol y Coleg yn cael ei gynnal ar 8 Mawrth ym Mhrifysgol Abertawe. 5.19 Nodwyd bod Gwobr Eilir Hedd Morgan yn cael ei gyflwyno i Dr Prysor Williams, a'r tri chymrawd a fydd yn cael eu hurddo bydd yr Athro Brynley F Roberts, Dr Siân Wyn Siencyn a'r Athro Merfyn Jones.		
6. Cynllunio Academaidd • **Cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips; a** • **Camau nesaf**	6.1Derbyniwyd cyflwyniad gan Dr Dylan Phillips. Aethpwyd drwy nodau ac amcanion y grantiau pynciol. 6.2 Adroddwyd am y tair elfen sydd i'r broses grantiau pynciol sef (1) sefydlu fframwaith cenedlaethol; (2) cynllunio ar sail bynciol; a (3) gweithredu a monitro. 6.3 Nodwyd bod y pynciau wedi'u categoreiddio yn bynciau datblygu, datblygedig neu'n aeddfed. Nodwyd y byddai modd asesu statws pwnc o dro i dro. 6.4 Cyfeiriwyd at yr holl ffactorau a fyddai'n effeithio ar gategoreiddio'r pwnc. 6.5 Nodwyd bod trafodaethau gyda'r prifysgolion yn holl bwysig i sicrhau eglurder ar amodau grantiau pynciol. 6.6 Codwyd nifer o faterion penodol gan aelodau'r Bwrdd yn ystod y drafodaeth a ddilynodd. Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno'r pwyntiau hyn yn ysgrifenedig ac yna byddai cyfle i ystyried unrhyw themâu cyffredinol yng nghyfarfodydd y dyfodol wrth fireinio'r broses.	Sylwadau/cwestiynau aelodau at Dr Dylan Phillips a/neu Suzanne Lewis. .	
7. Ymchwil a chyhoeddi • **Ymgynghoriad FfRhY 2021; a** • **Cadarnhau polisi**	**Ymgynghoriad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021** 7.1 Nodwyd bod Mari Fflur, Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg wedi paratoi ymateb drafft i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.	Sylwadau'r aelodau at Dr Dylan Phillips a/neu Suzanne Lewis	Cyn 24/01/2017

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
cyhoeddi'r Coleg.	7.2 Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylai'r aelodau gynnig sylwadau pellach ar yr ymateb drafft i Dr Dylan Phillips erbyn 24 Chwefror, er mwyn eu hymgorffori i'r drafft a fydd yn mynd at y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi ar 28 Chwefror. 7.3 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai ystyriaeth i adolygu statws y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, o ran ei berthynas gyda'r Bwrdd Academaidd. **Cadarnhau polisi cyhoeddi'r Coleg** 7.4 Cyflwynwyd Polisi Cyhoeddi'r Coleg gan Dr Dylan Phillips a nodwyd bod y ddogfen yn cadarnhau'r penderfyniadau polisi amrywiol sydd wedi eu cymryd yn ystod y blynyddoedd ers sefydlu'r Coleg. 7.5 Yn dilyn trafodaeth fer, derbyniodd y Bwrdd Academaidd y polisi.		
8. Ehangu Mynediad a Chyfranogiad	8.1 Diolchodd y Prif Weithredwr i Delyth Murphy am symud y drafodaeth ar ehangu mynediad ymlaen. 8.2 Nodwyd bod y Prif Weithredwr, y Deon a Delyth Murphy yn cyfarfod yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Academaidd. 8.3 Derbyniwyd adroddiad llafar gan Delyth Murphy ar ehangu mynediad a chyfranogiad.		
9. Asesu ac arholi (QAA)	9.1 Nodwyd bod y Prif Weithredwr wedi derbyn gwahoddiad i eistedd ar y Grŵp Adolygu Canllawiau 2003 ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar arfer effeithiol mewn arholi ac asesu mewn iaith sy'n wahanol i'r iaith addysgu (QAA) i gynrychioli'r Coleg. 9.2 Cytunwyd y byddai'r Deon yn eistedd ar y grŵp fel cynrychiolydd academaidd y Coleg. 9.3 Argymhellodd y Prif Weithredwr y byddai'n ddefnyddiol i ddod â fersiwn drafft o'r canllawiau newydd at y Bwrdd		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Academaidd i drafod pan fyddant ar gael.		
10. System aelodaeth: diweddariad gan Rhys Williams	Derbyniwyd cyflwyniad gan Rhys Williams, Rheolwr Systemau a Thechnoleg Gwybodaeth ar system aelodaeth bresennol y Coleg. 10.2 Nodwyd y byddai Rhys Williams yn darparu diweddariad i'r Bwrdd Academaidd pan fydd datblygiadau i'w hadrodd.		
11. Materion i'w trafod gan y canghennau • **Cangen Aberystwyth: 5 credyd**	11.1 Cyflwynodd Dr Elin Royles ei phapur yn trafod 5 credyd fel mesurydd. 11.2 Nododd y Prif Weithredwr mai HEFCW a benderfynodd ar ddefnyddio'r 5 credyd fel mesurydd adeg sefydlu'r Coleg, er bod y Coleg yn dymuno defnyddio 40, 80 a 120 credyd yn ogystal. 11.3 Nodwyd bod trafodaethau rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru i ail ystyried y mesuryddion a bod y drafodaeth yn mynd rhagddi. Er hyn, nodwyd ei fod yn debygol y bydd 5 credyd fel mesurydd yn parhau. 11.4 Cyflwynwyd papur gan y Prif Weithredwr, ar ran y Cofrestrydd, yn amlinellu'r camau y mae'r Coleg wedi eu cymryd wrth drafod datblygiad y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) gyda swyddogion o Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol a HEFCW. Yn fwyaf diweddar mae'r Coleg wedi awgrymu y dylid cynnal ymarferiad data i wirio a oes yna wahaniaethau arwyddocaol yn y data rhwng y rhai sy'n astudio 5 credyd yn Gymraeg a'r rhai sy'n astudio 40 credyd. Byddai hynny yn rhoi mwy o sicrwydd parthed addasrwydd y mesurydd presennol wrth i'r TEF ddatblygu. 11.5 Nododd y Prif Weithredwr nad oedd Prifysgolion Cymru, fel corff, wedi codi'r Gymraeg wrth ymateb i'r BIS. 11.6 Yn sgil trafodaeth, mynegwyd anfodlonrwydd ynghylch		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	defnydd o 5 credyd fel mesurydd TEF a gofyn i'r Coleg a'r sefydliadau addysg uwch i gysylltu gyda BIS i amlygu'r problemau gyda'r mesurydd presennol.		
12. Materion yn codi o'r cofnodion na ddeliwyd a hwy yn barod	12.1 Eitem 8 – Cadarnhawyd bod proses ethol myfyrwyr wedi'i ddiwygio. 12.2 Eitem 13 – Diweddarwyd y Cynllun Academaidd yn unol â sylwadau'r aelodau.		
13. UFA	Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Meirion Dwyfor a'i fod ar fin ymweld â'r Brifysgol Agored a Phrifysgol De Cymru.		
14. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	Nodwyd y dyddiad canlynol: • 10 Mai 2017, Prifysgol Aberystwyth		